# Cyfarfod y Pwyllgor Deddfau

## Cofnodion (LEG(2)-08-07):

### Dyddiad y Cyfarfod: 13 Mawrth 2007
### Amser y Cyfarfod: 9:30am.
### Lleoliad y Cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 1, y Senedd

#### Aelodau Cynulliad yn Bresennol:

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| Rosemary Butler | Gorllewin Casnewydd |
| Jeff Cuthbert | Caerffili |
| Janice Gregory | Ogwr |
| Christine Gwyther | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Ann Jones | Dyffryn Clwyd |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| David Melding (Chair) | Canol De Cymru |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |
| Brynle Williams | Gogledd Cymru |

#### Swyddogion

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| Gwyn Griffiths | Cynghorydd Cyfreithiol |
| Joanest Jackson | Cynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol |

#### Committee Service

| **Name** | **Job Title** |
|---|---|
| Olga Lewis | Committee Clerk |
| Hasera Khan | Committee Deputy Clerk |

**Eitem 1: Ymddiheuriadau am absenoldeb: Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.**

**Eitem 2: Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol – LEG(2)-07-07**

2.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2007.

**Eitem 3: Adroddiad y Cadeirydd**

3.1. Gan nad oedd unrhyw bwyntiau i'w hadrodd, awgrymodd y Cadeirydd y dylid symud ymlaen i drafod deddfwriaeth.

**Eitem 4: Gorchmynion y Cynulliad i'w hystyried**

4.1 LC1491 – Gorchymyn Cyfeiriadau at Awdurdodau Iechyd 2007

Nododd y Cynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol y dylid dileu'r frawddeg "The following point has been identified for reporting under Standing Order 11.7." o fersiwn Saesneg yr adroddiad. Cytunodd yr Aelodau y dylid llunio'r adroddiad yn niwyg y drafft a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol.

4.2 Mewn perthynas â'r Offerynnau Statudol canlynol cytunodd yr Aelodau y dylid llunio'r adroddiadau yn niwyg y drafftiau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol:

LC1482 – Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) (Diwygio) 2007

LC1483 – Rheoliadau Gwasanaeth Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2007

LC1484 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2007

LC1485 – Gorchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

LC1486 – Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Penderfyniadau, Dogfennau a Chyfarfodydd) a'r Pwyllgorau Safonau (Cymru) (Diwygio) 2007

LC1487 – Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2007

LC1488 – Rheoliadau Hysbysiadau o Farchnata Bwyd at Ddefnydd Maethol Neilltuol (Cymru) 2007

LC1489 – Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2007

LC1490 – Gorchymyn Dynodi Ysgolion sydd â Chymeriad Crefyddol (Cymru) 2007

LC1492 - Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Trawsgydymffurfio) (Cymru) (Diwygio) 2007

LC1502 - The Curd Cheese (Restriction on Placing on the Market) (Wales) (Revocation) Regulations 2007

**Camau i'w cymryd**

Nid oedd unrhyw gamau i'w cymryd.

## Eitem 5: Unrhyw Fater Arall a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

5.1 Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 20 Mawrth 2007.